

POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2015

1. CYFLWYNIAD

- a. Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu fod y Cyngor yn derbyn adroddiad bynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- b. Penodwyd Cynghorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters, Ann Morgan a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg i gyflwyno'r adroddiad blynyddol.
- c. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant neu argymell newid ar gyfer y dyfodol.
- d. Gwneir argymhellion i wella'r cynllun iaith yn adran 7.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

- a. Mae'r cyngor wedi parhâu i hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn unol â'r cynllun gan gynnwys rhoi cymorth ariannol i Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantfedwen) Llanbedr Pont Steffan, Adran ac Aelwyd yr Urdd, Llanbedr Pont Steffan (ar gyfer teithio i Eisteddfod yr Urdd), Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion a Chlwb Ffermwyr Ifanc Bro Dderi
- b. Cyhoeddwyd 1,000 taflen ar gyfer ymwelwyr yn ddwyieithog mewn fformat tete-beche.
- c. Nid oedd newid i'r cynllun wedi cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn.

3. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

- a. Derbyniodd y cyngor nifer o llythyron ac e-byst yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn diwethaf ac maent wedi cael eu hateb yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cael ei nodi ar bob llythyr sy'n mynd allan.
- b. Parhaodd y cyngor i ddarparu gwefan dwyieithog gyda chofnodion y cyngor a chynnwys parhaol ar gael yn Saesneg a'r Gymraeg.
- c. Darperwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer seremoni sefydlu'r Maer.
- d. Yn ystod y flwyddyn penderfynodd y cyngor i gyflogi cyfeithydd ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd misol arferol y Cyngor ac o ganlyniad mae llawer mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y cyfarfodydd.

4. GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

- a. Mae papur pennod, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- b. Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.

- c. Mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau. Mae ffurflen i'r rhai sy'n gwneud cais am arian lenwi, er mwyn esbonio sut mae nhw'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- a. Argymhellir dylid rhoi datganiad i'r *Cambrian News*, *Ceredigion Herald* a'r *Carmarthen Journal* a hysbyseb yn *Clonc* i hysbysebu'r adolygiad blynyddol a gofyn am sylwadau.
- b. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn y llyfrgell. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

6. ARGYMHELLION

- a. Fod y cyngor yn parhau gyda'r drefn o gael cyfieithydd ar y pryd yn ystod cyfarfodydd arferol y Cyngor.
- b. Fod y cyngor yn cyd-weithio gyda phapur bro Clonc i gefnogi'r papur a hyrwyddo digwyddiadau iaith Gymraeg.
- c. Fod y cyngor yn cefnogi Ras yr Iaith pan ddaw'r ras trwy'r dref yn 2016
- d. Fod y Pwyllgor Iaith Gymraeg yn ystyried ffyrdd eraill i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r iaith yn y dref.
- e. Fod y pwyllgor yn cefnogi 'r 'Siop Siarad' a'r holl fudiadau tebyg eraill yn ymwneud â Siaradwyr Cymreig yn y dref sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- f. Fod y pwyllgor yn cefnogi a datblygu ein digwyddiad 'Shw mae' yn y dref ar Hydref 15.
- g. Fod y pwyllgor yn ystyried cynnal gorymdaith yn y dref ar ddydd Gwyl Dewi.

**Pwyllgor Iaith Gymraeg
12 Mai 2016**